RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
71/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
11/07/2023

# Adolygiad o beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-252-6

Adolygiad o Beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

Awduron: Angharad Davies, Alice Dawkins, a Matt Lewis-Richards

Adroddiad Ymchwil Llawn: Davies, A., Dawkins, A. a Lewis-Richards, M. (2023). *Adolygiad o Beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 71/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-beilot-y-gronfa-mynediad-i-swyddi-etholedig-cymru

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2
2. Methodoleg .......... 7
3. Y prif ganfyddiadau .......... 10
4. Casgliadau .......... 33

# 1. Cyflwyniad

## Nodau ac amcanion

1.1 Nod yr ymchwil hon oedd adolygu peilot Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru Llywodraeth Cymru (‘y gronfa’ / ‘y peilot’) i ddarparu tystiolaeth i ddylanwadu ar drefniadau yn y maes hwn yn y dyfodol.

1.2 Er mwyn cyflawni'r nod hwn, gosodwyd yr amcanion ymchwil allweddol canlynol:

- Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol sy’n gyfrifol am ddatblygu peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i ddeall nodau allweddol y peilot a sefydlu’r ffocws ar gyfer yr adolygiad;
- Defnyddio gwaith a llenyddiaeth sy’n bodoli ar (ac yn berthnasol i) fynediad i gronfeydd swyddi etholedig er mwyn deall y cyd-destun ar gyfer y peilot yng Nghymru a, lle bo’n briodol, enghreifftiau o ymhellach i ffwrdd (y DU ac yn rhyngwladol) a all helpu i ddatblygu syniadau cyfredol ymhellach yn y maes hwn;
- Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol sy’n ymwneud â'r gwaith o ddylunio a chyflawni’r cynllun peilot, gan gynnwys staff o Anabledd Cymru sy’n gyfrifol am weinyddu a chyflwyno’r cynllun peilot, cynrychiolwyr o grwpiau a sefydliadau sy’n gweithio ar draws y sector cyhoeddus a’r trydydd sector, ac aelodau panel a wnaeth benderfyniadau ar geisiadau ymgeiswyr; a
- Ymgynghori ag ymgeiswyr a gymerodd ran yn y cynllun peilot i ddeall eu profiadau, cyn ac ar ôl cyfnod yr etholiad;

## Y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

1.3 Pobl anabl yw tua un rhan o bump o boblogaeth y DU (fel sy'n wir yn 2019, yr Adran Gwaith a Phensiynau[1]) ond ni chânt eu cynrychioli’n ddigonol mewn gwleidyddiaeth ar bob lefel o'r llywodraeth. Fodd bynnag, prin yw'r

[1] Department for Work and Pensions (2019) Family Resource Survey 2017/18 (PDF) ↩

llywodraethau hyd yn hyn sydd wedi cymryd camau i leihau'r rhwystrau a gwella mynediad i swyddi etholedig i bobl anabl.

1.4 Mae pobl anabl yn y DU sy’n dyheu am sefyll am etholiad, sydd wedi sefyll fel ymgeiswyr, neu sydd wedi llwyddo i gael eu hethol fel ymgeiswyr, yn wynebu ystod o rwystrau yn ystod camau amrywiol y prosesau recriwtio a chynrychiolaeth. Gall y rhain fod yn ariannol, yn ddiwylliannol, yn wleidyddol, yn gymdeithasol a/neu'n ffisegol eu natur.

1.5 Gellir dosbarthu'r rhwystrau hyn yn dri grŵp: hygyrchedd, adnoddau, ac ableddiaeth[2] (Evans a Reher, 2020; University and College Union, 2023).

1.6 Mae'r diffiniadau yn cael eu dylanwadu gan Y Model Cymdeithasol o Anabledd, sydd wedi ei sefydlu gan bobl anabl, yn seiliedig ar eu profiadau. Mae’r model cymdeithasol yn egluro bod y problemau a wynebir gan bobl anabl yn bennaf o ganlyniad i’r ffordd y mae cymdeithas wedi’i threfnu, gan gynnwys agweddau pobl at anabledd, a rhwystrau corfforol a sefydliadol i bobl anabl.

1.7 Mae ymgeiswyr anabl yn profi rhwystrau oherwydd diffyg hygyrchedd i'r amgylchedd adeiledig a deunyddiau ysgrifenedig. O ran adnoddau a chyllid, weithiau gall pleidiau fod yn amharod i gefnogi costau personol (Murray, 2021), sy'n gadael ymgeiswyr yn ddibynnol ar eu harian personol eu hunain (Mariani a Buckley, 2021), gan achosi effaith negyddol anghymesur ar bobl anabl, sy'n aml yn mynd i fwy o gostau nag eraill. Gall hyn wedyn olygu nad oes ganddynt gymorth fel dehonglwyr iaith arwyddion, offer arbenigol a chymhorthion cynorthwyol eraill.

1.8 Cydnabyddir hefyd bod stigmateiddio a chanfyddiadau negyddol y cyhoedd o alluoedd pobl anabl yn bodoli o fewn pleidiau a llywodraethau yn ogystal ag o fewn etholaethau ac mae'r ableddiaeth hwn hefyd yn gallu chwarae rhan mewn atal ymgeiswyr anabl rhag cymryd rhan lawn wrth sefyll am etholiad.

---

[2] Ableddiaeth yn cyfeirio at fethiannau i wneud addasiadau yn y gweithle ar gyfer pobl anabl, methiant i gyflogi neu hyrwyddo pobl anabl, a methiant i wneud adeiladau, gweithgareddau, a phrosesau yn hygyrch i bawb,

1.9 Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022 (Smith a Davies, 2022) ar ddileu rhwystrau i swyddi etholedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig yn pwysleisio y dylai llywodraeth leol gynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.[3] Mae pobl â nodweddion gwarchodedig eisiau bod yn hyderus yng ngallu eu cynrychiolydd lleol i eirioli drostynt a'u buddiannau ac, er mwyn gwella'r gynrychiolaeth hon a chydraddoldeb, mae angen lefelau cyfranogiad uwch gyda chronfa ymgeiswyr fwy amrywiol a gwybodus. Ochr yn ochr â fframweithiau moesegol ac atebolrwydd effeithiol, dylai hyn yn ei dro arwain at lai o adroddiadau am wahaniaethu a hwyluso amgylchedd a phroses hygyrch i swyddi etholedig (Smith a Davies, 2022).

1.10 Yn dilyn yr adroddiad 'Ar ôl pwyso a mesur' (Llywodraeth Cymru, 2014) a oedd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun tebyg i un a weithredir gan Lywodraeth y DU, gwnaeth Gweinidogion Cymru ymrwymiad i sefydlu cynllun peilot Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru.

1.11 Gwnaethpwyd gwaith i ddechrau fel rhan o brosiect 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' er mwyn gweithredu cynllun tebyg ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru, ond roedd nifer o faterion yn golygu nad oedd hyn yn bosibl bryd hynny. Cafodd y materion eu datrys wedyn, gan arwain at sefydlu cynllun peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig.

1.12 Yn 2021-22, comisiynodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot o'r gronfa gyda'r nod o alluogi pobl anabl i sefyll am swyddi etholedig drwy ddarparu cyllid i dalu costau ychwanegol rhwystrau sy'n ymwneud â namau nad ydynt yn cael eu hwynebu gan ymgeiswyr nad ydynt yn anabl. Gweinyddwyd y peilot gan Anabledd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru fel sefydliad trydydd parti diduedd.

1.13 Rhoddwyd y peilot ar waith yng Nghymru i ariannu addasiadau rhesymol a galluogi i ymgeiswyr anabl oedd yn ceisio cael eu hethol yn etholiad i Senedd Cymru 2021 (Cam 1) ac yn etholiadau llywodraeth leol 2022 (Cam 2).

1.14 Yn ail gam y peilot, trefnwyd bod y gronfa ar gael i ymgeiswyr anabl a oedd yn sefyll ar gyfer y 22 o brif gynghorau a 735 o gynghorau cymuned. Dyma’r tro cyntaf i ddarpariaeth o’r fath fod ar gael i ymgeiswyr sy’n sefyll ar lefel cyngor cymuned yn y Deyrnas Unedig.

1.15 Sicrhawyd bod cyllid ar gael i alluogi ymgeiswyr anabl i gael mynediad at offer (fel offer symudedd neu offer ar gyfer cyfathrebu) a hyfforddiant, ac i dalu costau teithio, a chymorth personol.

1.16 Yn y cam cyntaf, cafwyd tri ymholiad a dau gais i’r etholiadau i Senedd Cymru yn 2021 a gwnaed dyfarniad o’r gronfa i’r ddau ymgeisydd. Ni fu'r naill ymgeisydd na'r llall yn llwyddiannus i gael swydd.

1.17 Yn ystod yr ail gam, derbyniodd y peilot 18 o geisiadau a chymeradwywyd 17 ohonynt. O'r ymgeiswyr llwyddiannus, cafodd 13 o'r rhain ddarpariaethau cymorth a dderbyniwyd drwy'r cynllun, nid oedd un person yn gallu ymgysylltu â'r ddarpariaeth, etholwyd un arall yn ddiwrthwynebiad a phenderfynodd dau berson beidio â chymryd y dyfarniad.

1.18 O'r ymgeiswyr, roedd 13 yn ymgeiswyr ar gyfer prif gynghorau ac roedd wyth yn sefyll mewn etholiadau i gynghorau cymuned. Yn yr etholiadau prif gyngor, ni enillodd unrhyw ymgeisydd seddi, ond cafodd chwech eu hethol i seddi cynghorau cymuned.

1.19 Er bod y peilot hwn yn canolbwyntio ar ymgeiswyr anabl, mae ymrwymiad penodol yn y Rhaglen Lywodraethu i ymestyn a gwella’r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ymhlith pobl â’r holl nodweddion gwarchodedig.[4] Roedd yr ymchwil hon hefyd yn ystyried hyn yn ogystal â gwahanol ffyrdd o addasu'r peilot fel y gellir cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig eraill mewn modd tebyg.

[4] Nodweddion gwarchodedig yw’r rhai a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

### Yr adroddiad

1.20 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad. Yna, mae'n amlinellu ei ganfyddiadau allweddol, yn unol â'r prif amcanion.

## 2. Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd yr adolygiad gan Opinion Research Services (ORS) rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023.

2.2 Roedd yr ymchwil hon yn gwbl ansoddol ei natur gan y teimlwyd mai cael adborth manwl gan randdeiliaid, aelodau panel ac ymgeiswyr oedd y ffordd orau o roi cipolwg ar gryfderau a gwendidau'r peilot, gan ganiatáu ar gyfer dealltwriaeth ddyfnach.

**Adolygiad cychwynnol o’r data a chwmpasu: Tachwedd – Rhagfyr 2022**

2.3 Roedd hyn yn cynnwys adolygiad cyffyrddiad ysgafn o ddogfennau allweddol i ddeall y cyd-destun ar gyfer y peilot yng Nghymru a llywio'r gwaith o ddatblygu cynllun y prosiect a'r cwestiynau i'w cynnwys yng nghamau casglu data'r adolygiad.

2.4 Roedd y rhan fwyaf o’r data a adolygwyd ar gael yn gyhoeddus, a darparwyd rhywfaint ohono gan Lywodraeth Cymru.[5]

2.5 Ochr yn ochr ag adolygu’r dogfennau, cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu archwiliadol yn rhithwir gyda phersonél strategol o Lywodraeth Cymru ac Anabledd Cymru oedd yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu a chyflawni’r peilot.

2.6 Ar yr adeg hon, nododd Llywodraeth Cymru sampl fwriadus o gyfranogwyr yn y cyfweliadau y teimlwyd eu bod mewn sefyllfa ddelfrydol i lywio'r gwaith o ddatblygu peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig. Ar y cyd â'r adolygiad o ddogfennau, casglodd y cyfweliadau wybodaeth i ni ddeall y cyd-destun a llywio'r canllawiau pwnc ar gyfer y cyfweliadau manwl dilynol â rhanddeiliaid ac ymgeiswyr.

[5] Defnyddiodd yr ymchwil dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o ‘ddamcaniaeth newid’ ar Chwalu’r rhwystrau i swyddi etholedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022, adroddiad adborth gan Anabledd Cymru, ynghyd â nifer o astudiaethau ac adroddiadau eraill sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n ymwneud â rhwystrau i fynediad i swyddi etholedig, nid yn unig o ran pobl anabl ond hefyd nodweddion gwarchodedig eraill. Ystyriwyd hefyd natur a graddau cynlluniau a mentrau tebyg gan lywodraethau eraill.

### Cyfweliadau â rhanddeiliaid ac ymgeiswyr: Ionawr – Chwefror 2023

2.7 Cynhaliwyd 11 o gyfweliadau manwl â rhanddeiliaid ag 13 o gyfranogwyr ar ddechrau 2023. Gwnaethom hefyd siarad â chwe aelod o'r panel a adolygodd ac asesodd geisiadau gan ymgeiswyr. Roedd rhanddeiliaid eraill yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Comisiwn Etholiadol,[6] Inclusion Scotland, a chynghorwyr polisi.

2.8 Cymerodd chwe ymgeisydd i'r gronfa ran mewn cyfweliadau manwl; buont oll yn llwyddiannus wrth dderbyn darpariaethau drwy'r cynllun peilot ond ni chawsant eu hethol i lywodraeth leol.

2.9 Derbyniodd pob cyfranogwr ystod o ddarpariaeth gan y gronfa, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyllid ar gyfer gostau teithio, cynorthwywyr personol neu weithwyr cymorth, a thechnoleg symudoledd neu gyfathrebu

2.10 Recordiwyd pob cyfweliad gyda chydsyniad penodol y cyfranogwyr.

### Dadansoddi ac adrodd

2.11 Yn dilyn y cyfweliadau, gwnaed trawsgrifiadau llawn gan ddefnyddio'r recordiadau. Hefyd, lluniodd ymchwilwyr ORS nodiadau manwl a ddefnyddiwyd i greu fframwaith dadansoddi ansoddol ac i dynnu'r canfyddiadau allweddol o'r data. Cafodd MS Excel ei ddefnyddio i drefnu'r data yn themâu cyffredinol ac is-themâu (cafodd hyn ei wneud â llaw er mwyn sicrhau bod naws a chyfoeth llawn y data'n cael eu casglu) ac, ar ôl cwblhau'r dadansoddiad terfynol, cynhaliwyd cyfarfod mewnol i alluogi'r tîm adolygu cyfan i rannu a thrafod y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o'r dadansoddiad, gan gynnwys themâu cyffredin a safbwyntiau penodol.

2.12 Mae canfyddiadau allweddol y cyfweliadau yn cael eu crynhoi yng ngweddill yr adroddiad hwn.

### Nodyn rhybudd am ddata

2.13 Bwriad y cyfweliadau â rhanddeiliaid ac ymgeiswyr oedd casglu profiadau ystod mor eang â phosibl o bobl o fewn maint sampl cymharol fach. O'r

[6] Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU.

herwydd, er ei fod yn gynhwysfawr, ni ddylai'r adborth ansoddol a adroddir yma gael ei ystyried yn ystadegol gynrychioliadol o farn yr holl randdeiliaid ac ymgeiswyr.

2.14 Gall y farn a fynegir gan gyfranogwyr yn y cyfweliadau gael ei chefnogi gan y dystiolaeth sydd ar gael ai peidio; hynny yw, gall adlewyrchu’r ffeithiau’n gwbl gywir ai peidio. Ni all ORS farnu ar gywirdeb neu anghywirdeb barn pobl wrth ei hadrodd, a dylid cofio hyn wrth ystyried y canfyddiadau. Lle bo modd, rydym wedi ceisio triongli’r data ansoddol â data meintiol a data/ffynonellau cyhoeddedig eraill, ond lle nad yw’r data hwn yn bodoli neu lle nad yw'n hygyrch, dylid cadw’r nodyn rhybudd uchod mewn cof.

# 3. Y prif ganfyddiadau

### Y farn gyffredinol ar beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

3.1 Mae’r ymchwil hon yn archwilio cryfderau a gwendidau peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig fel y’u nodwyd gan randdeiliaid allweddol, aelodau’r panel oedd â’r dasg o asesu ymgeiswyr i’r gronfa, ac ymgeiswyr anabl a wnaeth sefyll am etholiad, naill ai yn etholiadau’r Senedd yn 2021 neu yn etholiadau llywodraeth leol 2022, ac a wnaeth gais i’r gronfa.

3.2 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y gronfa'n werthfawr o ran darparu'r addasiadau rhesymol yr oedd eu hangen ar ymgeiswyr anabl i gystadlu ar faes mwy cyfartal yn erbyn ymgeiswyr eraill a oedd yn sefyll am etholiad yn yr un etholaeth. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar y gwaith o wastatáu'r maes chwarae, ond roedd y gronfa yn cynrychioli cam tuag at fynediad mwy cyfartal i bobl anabl wrth ymgyrchu.

3.3 Roedd ymgeiswyr a rhanddeiliaid hefyd yn eirioli dros ddarpariaethau galluogi i ymgeiswyr anabl ar ffurf fersiwn gydol y flwyddyn o'r cynllun a allai addysgu darpar ymgeiswyr am y broses etholiadol a'r addasiadau rhesymol y gallent ddisgwyl eu cael.

3.4 Ein hargymhelliad felly yw y dylid cynnig cynllun pellach o’r math hwn yn y dyfodol ond, yn hytrach na chynnig annibynnol, dylai fod yn rhan o becyn i bobl anabl sydd â diddordeb mewn sefyll am swydd. Dylai unrhyw ddarpariaeth galluogi yn y dyfodol gael ei gynnig mewn cydweithrediad â sefydliadau partner a dylai annog pleidiau gwleidyddol i chwarae mwy o ran wrth sicrhau mynediad cyfartal.

3.5 Dylai fod gan unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol strategaeth gyfathrebu glir yn gysylltiedig ag ef i annog cyfranogiad ymhlith pobl anabl heb unrhyw gefndir na phrofiad blaenorol mewn gwleidyddiaeth.

3.6 Mae'r adrannau canlynol yn nodi barn ymgeiswyr i’r gronfa a rhanddeiliaid ar wahanol agweddau ar y gwaith o gyflwyno'r peilot, ac unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol.

**Barn aelodau'r panel ar elfennau gweithredol y peilot**

**Yn gyffredinol, dysgodd aelodau'r panel am y cyfle ar lafar ac roeddent yn gwerthfawrogi hygyrchedd y broses ymgeisio.**

3.7 Soniodd aelodau'r panel eu bod wedi llenwi ffurflen gais i gael y rôl. Canmolwyd y ffurflen am ei bod yn hygyrch i bobl anabl, gan eu bod yn gallu ffonio Anabledd Cymru i ofyn am gymorth a/neu siarad am unrhyw beth y teimlent na allent ei lenwi'n gorfforol.

> ‘Roeddwn i'n lwcus iawn oherwydd y dywedodd Anabledd Cymru nad oes rhaid i chi lenwi cais, gallwch chi eu ffonio a bydden nhw'n ei wneud ar eich rhan chi … Fel arall, nid wyf yn meddwl y byddwn i wedi gallu ei wneud … Gallu ffonio a dweud pethau wrthyn nhw … a wnaeth hi’n bosibl i mi wneud cais [i’r panel]. Roedd hynny'n waith da iawn Anabledd Cymru oherwydd eu bod yn ei gwneud yn hygyrch iawn.’ – Aelod o'r panel

> ‘‘Byddwn yn dweud eu bod wedi gwneud yn dda o ran eu ffurflenni gais oherwydd y gallan nhw eu hunain fod yn rhwystr enfawr i bobl anabl. Roedd opsiynau o ran dulliau o ymateb, felly gallech eu ffonio neu beth bynnag, neu gyflwyno fideo neu rywbeth, dwi'n meddwl. Roedd amrywiaeth o ffyrdd’ – Aelod o'r panel

3.8 Dywedodd rhai aelodau panel eu bod wedi gweld y cyfle’n cael ei hysbysebu gan Anabledd Cymru, er bod y rhan fwyaf yn cofio cael gwybod am y cyfle ar lafar gan aelodau Anabledd Cymru.

3.9 Roedd aelodau'r panel yn canmol y ffaith bod y cyfle wedi'i anelu at bobl â phrofiadau bywyd o anableddau a rhyw fath o brofiad perthnasol presennol. Fodd bynnag, awgrymwyd y gellid penodi'r rôl yn gyhoeddus yn y dyfodol.

> ‘Cyhoeddodd Anabledd Cymru hysbysiad yn dweud eu bod yn chwilio am bobl a oedd wedi byw profiad o anabledd a rhywfaint o brofiad o fywyd gwleidyddol neu ymgysylltu â'r cyhoedd …’ – Aelod o'r panel

> ‘Cefais fy nhapio ar fy ysgwydd gan aelod o Anabledd Cymru. Gwnaeth ofyn p'un a oedd gen i ddiddordeb oherwydd bod gen i brofiad yn y sector. Roeddwn i’n meddwl ei fod yn gynllun diddorol i fod yn rhan ohono … ac

roeddwn i’n awyddus i helpu. Yn y dyfodol, dylai fod yn rôl a benodir yn gyhoeddus.’ – Aelod o'r panel

**Roedd rôl aelodau'r panel yn gadarnhaol ar y cyfan ac fel y disgwylir.**

3.10 Dywedodd aelodau'r panel mai darllen ac adolygu cyflwyniadau am gyllid gan ymgeiswyr a phenderfynu beth fyddai'r swm priodol o gyllid a pha offer neu gymorth arall y dylid eu rhoi i unigolion oedd eu rolau yn bennaf.

3.11 Roedd y cysylltiad hwn i raddau helaeth fel yr oedd aelodau'r panel wedi'i ddisgwyl, ond dywedodd rhai fod diffyg profiad sylweddol gyda chronfeydd o'r fath ymhlith y panel. Teimlwyd felly y gellid gwella'r panel yn y dyfodol drwy sicrhau bod gan yr aelodau fwy o brofiad cyfunol o'r peilot neu gynlluniau tebyg.

3.12 Yn gyffredinol, siaradodd y rhanddeiliaid yn gadarnhaol am elfennau gweithredol y gronfa a gwnaethant gytuno ei bod wedi bod yn effeithiol o ran cynyddu lleisiau pobl anabl a oedd yn dymuno sefyll am swyddi etholedig.

> ‘Roedd yn gynllun peilot da iawn yn yr ystyr ei fod yno i'r bobl ddefnyddio cynllun i wneud y mwyaf o'u llais a gwnaeth fwyafu lleisiau rhai pobl a gafodd rolau etholedig allan ohono.’ – Aelod o'r panel

3.13 Gwnaeth nifer o aelodau'r panel sylwadau ar amrywiaeth anableddau aelodau'r panel a'u profiadau bywyd. Teimlwyd bod yr amrywiaeth hon yn allweddol i sicrhau y gallai aelodau'r panel wneud penderfyniadau gwybodus ar geisiadau gan ymgeiswyr ag ystod eang o anableddau.

> ‘Roedd gan y panel ystod eithaf eang o brofiadau bywyd o wahanol anableddau arno a chredaf mai dyna oedd ei gryfder. Roeddem yn herio ein gilydd o bryd i'w gilydd ar y penderfyniadau yr oeddem yn eu gwneud ac efallai y dyfarniadau sylfaenol yr oeddem yn eu gwneud. Roedd yn dda, roeddwn i'n meddwl ei fod yn banel da, gweithredol, a heriol.’ – Aelod o'r panel

**Roedd cynorthwyo ymgeiswyr i gwblhau eu ffurflenni cais yn hanfodol i lwyddiant y peilot ac yn gwneud y broses yn fwy effeithlon.**

3.14 Canmolodd rhanddeiliaid Anabledd Cymru hefyd am gynorthwyo ymgeiswyr i gwblhau eu ffurflenni cais. Dywedwyd bod hyn yn gwneud y broses yn haws ac yn gliriach i ymgeiswyr wrth wella ansawdd ceisiadau.

3.15 O ganlyniad, anaml y bu'n rhaid i'r panel ofyn am wybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr, gan wneud y broses yn fwy effeithlon.

> 'Gwnaeth Anabledd Cymru … helpu pobl i lenwi'r ffurflenni a phethau fel hynny. Rwy'n meddwl bod hynny'n bwysig iawn … roedd pobl yn gallu rhoi digon o wybodaeth i ni gan amlaf ac anaml y byddai'n rhaid i ni fynd yn ôl a gofyn am fwy o fanylion.' – Aelod o'r panel

**Amserlen fer y peilot oedd y rhwystr mwyaf i'w gyflawni.**

3.16 Teimlai rhanddeiliaid fod yr amserlen yn rhy fyr, gan mai dim ond chwe wythnos cyn y cyfnod canfasio swyddogol y caniateid ceisiadau. Dywedwyd bod hyn wedi'i gwneud yn anodd prosesu'r holl geisiadau'n llawn cyn i'r cyfnod canfasio ddechrau.

> 'Rydych chi'n cael mewnlifiad mawr o geisiadau i gyd mewn un talp a dweud y gwir, ac mae hynny'n anodd … gwneud y penderfyniadau hynny mewn modd amserol … roedd yn ddi-drefn braidd a gallai fod wedi elwa ar fod ychydig yn fwy ffurfiol …' – Aelod o'r panel

3.17 Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod y cyfnod ymgyrchu chwe wythnos yn gysylltiedig ag amserlen ddeddfwriaethol cyfnod yr etholiad yn hytrach nag amserlen a gymhwysir gan Lywodraeth Cymru neu Anabledd Cymru. O ganlyniad, ni fyddai'r gronfa'n gallu darparu cymorth yn gynharach nac am gyfnod hwy na'r cyfnod hwn.

3.18 Mewn ymateb i hyn, eiriolodd aelodau'r panel y dylai ceisiadau a darpariaeth galluogi fod ar gael yn gynharach. Er enghraifft, pe gellid caniatáu meddalwedd/technoleg i ymgeisydd cyn y cyfnod ymgyrchu chwe wythnos, a darparu hyfforddiant hefyd cyn cyfnod yr ymgyrch, byddai'n caniatáu ar gyfer y manteision canlynol:

- Caniatáu mwy o amser i'r panel gael cyfarfodydd ychwanegol / mwy ffurfiol i ystyried ceisiadau
- Caniatáu mwy o amser i ymgeiswyr llwyddiannus ymgyfarwyddo â'r dechnoleg y maent yn ei derbyn; a
- Chaniatáu mwy o amser i ymgeiswyr ddysgu am y broses etholiadol fel y gallant fod yn fwy hyderus yn eu penderfyniadau

'… mae'n rhywbeth y gellid ei gynnal drwy gydol y flwyddyn, fel bod pobl anabl yn rhan o rwydwaith datblygu sgiliau sydd mewn gwirionedd yn eu paratoi ar gyfer sefyll. Yna unwaith y bydd y gronfa hon ar agor, mae gennych chi eisoes rwydwaith o bobl sydd wedi dangos diddordeb y gallwch chi wedyn ei chylchredeg o'u cwmpas. Nid ydych yn ei thaflu allan i'r tywyllwch.' – Aelod o'r panel

'Tynnu'r grŵp yna o bobl at ei gilydd … Roedd ychydig yn hap a damwain a gallai fod wedi elwa ar fod ychydig yn fwy ffurfiol ond gweithiodd cymaint ag yr oedd yn rhaid i ni ei wneud.' – Aelod o'r panel

**Dylid ystyried y model cymdeithasol o anabledd wrth sefydlu meini prawf cynnwys ac eithrio.**

3.19 Awgrymwyd hefyd y dylid datblygu meini prawf cynnwys ac eithrio pellach ar gyfer y gronfa er mwyn ei gwneud yn gliriach i aelodau'r panel ac ymgeiswyr pa fatho ddarpariaethau y gellir eu dyrannu mewn iteriadau o'r gronfa yn y dyfodol. Pwysleisiwyd y dylid ystyried y model cymdeithasol o anabledd wrth ddylunio a gweithredu'r meini prawf hyn.

3.20 Awgrymwyd hefyd y dylid datblygu meini prawf cynnwys ac eithrio pellach ar gyfer y gronfa er mwyn ei gwneud yn gliriach i aelodau'r panel ac ymgeiswyr beth y gellir ei ddyrannu mewn iteriadau o'r gronfa yn y dyfodol.

'Faint o gymorth y gallem ei roi, faint o bethau ychwanegol y gallem eu rhoi, p'un a fyddai hynny'n rhagfarnu yn erbyn rhywun nad oedd angen y cymorth hwnnw ac nad oedd yn anabl oherwydd bod yr unigolyn arall yn cael yr hyn y gellid ei ystyried yn fantais annheg. Cawsom rywfaint o sôn

am y model cymdeithasol o anabledd yn erbyn y model meddygol. Mae bob amser yno yn y cefndir.’ – Aelod o'r panel

**Cymhelliant a rhwystrau disgwyliedig i gyfranogiad**

### Cymhelliant i sefyll am swydd

3.21 Pan ofynnwyd iddynt beth oedd wedi eu hysgogi i sefyll am swydd gyhoeddus, roedd atebion ymgeiswyr yn gyffredinol wedi'u cyfeirio at awydd i wella cynrychiolaeth pobl anabl mewn llywodraeth leol neu genedlaethol.

> ‘Diffyg cynrychiolaeth pobl anabl, dyna beth oedd … i ddangos i bobl anabl nad yw'r ffaith eich bod yn anabl yn golygu na allwch ei wneud. Gallwch chi.’ – Ymgeisydd

3.22 Yn ogystal, roedd gan bob un o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd ddiddordeb neu brofiad mewn gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol, yn amrywio o ymgyrchu dros bobl anabl i fod yn rhan o lywodraeth leol a/neu bleidiau.

### Rhwystrau disgwyliedig i sefyll am swydd

3.23 Roedd nifer o rwystrau yr oedd ymgeiswyr yn disgwyl eu hwynebu wrth sefyll am swydd, ond y rhwystrau mwyaf cyffredin oedd rhai ffisegol.

3.24 Roedd ymgeiswyr yn disgwyl mai eu rhwystr mwyaf oedd eu hanallu i ganfasio eu hunain, oherwydd seilwaith ardaloedd a thai pobl yn eu hatal rhag cyrraedd drysau tai. Gellid crynhoi’r rhwystrau ffisegol hyn i ganfasio fel a ganlyn:

- Dibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus oherwydd anallu i yrru;
- Anallu i ddringo grisiau i dai pobl;
- Anallu i gerdded rhwng tai am gyfnod estynedig o amser; ac
- Anallu i sefyll am gyfnodau hir i siarad â phobl

3.25 Teimlai ymgeiswyr y byddai'r rhwystrau ffisegol hyn i ganfasio yn rhoi anfantais sylweddol iddynt o gymharu â'r rhai nad ydynt yn anabl, ac felly'n eu rhoi dan anfantais yn eu hymgyrchoedd i sefyll am swydd.

> ‘Byddwn i'n dweud bod gan 80 y cant o'r tai yr ydych yn mynd iddynt grisiau a mynediad lletchwith iddynt. Heb y cyllid i helpu, ni fyddech byth ar yr un llwybr [fel ymgeisydd heb anabledd], ni waeth faint o arian y maent yn ei daflu atoch.’ – Ymgeisydd

3.26 Dywedodd rhai ymgeiswyr, heb y gronfa, y gallai’r rhai a oedd yn wynebu rhwystrau ffisegol i ganfasio ddisgwyl wynebu rhwystrau ariannol gan y byddent wedi gorfod talu am gymorth gyda’u canfasio.

> ‘Byddai'n rhaid i mi fod wedi talu am rywun i ddod i mewn i'm helpu … fyddwn i ddim yn gallu ei wneud, byddai'n ddibwrpas.’ – Ymgeisydd

3.27 Yn olaf, dywedodd rhai ymgeiswyr eu bod yn disgwyl wynebu rhwystr cymdeithasol i sefyll am swydd, lle gallai diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth gyhoeddus o natur eu hanabledd eu rhoi dan anfantais.

> ‘Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o anableddau cudd, felly mae'n anodd weithiau pan fydd yn rhaid i chi esbonio i rywun “Wel, efallai na fyddaf yn gallu gwneud hynny y diwrnod hwnnw”, neu dim ond oherwydd bod digon o amser, nid yw'n golygu y bydd gen i ddigon o egni i fynd ymlaen a gwneud ail beth. Ond gallai fod mwy o ymwybyddiaeth yn y diwylliant yn gyffredinol o anableddau …’ – Ymgeisydd

**Y broses ymgeisio**

**Yn gyffredinol, clywodd ymgeiswyr am y peilot ar lafar.**

3.28 Dywedodd pob un o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd eu bod wedi clywed am y peilot ar lafar. Gan amlaf, roedd hyn oherwydd cyfranogiad yr ymgeisydd mewn ymgyrchu, a arweiniodd at gael gwybod am y peilot gan aelod o Anabledd Cymru, cynghorydd lleol/sir, neu drwy gynrychiolydd o'i blaid wleidyddol.

> ‘Drwy ddod yn ymgyrchydd anabledd, mae'n debyg i mi ddod yn ymwybodol o'r cynllun hwn. Mae'n debyg iddo dyfu ar lafar, trwy rwydweithiau. Pe na bawn i wedi mynd i mewn i rwydwaith, nid wyf yn gwybod p'un a fyddwn wedi dod i wybod amdano, sy'n ddiddorol.’ – Ymgeisydd

> ‘Cefais wybod amdano gan fy swyddog anabledd plaid lleol. Rhoddodd hi'r cyfeiriad e-bost cywir i mi a chysylltais â nhw … a dyma nhw'n fy ffonio'n ôl yn gyflym ac yn anfon y ffurflen ataf.’ – Ymgeisydd

**Roedd yn hawdd i ymgeiswyr ddod o hyd i wybodaeth am y peilot i ymgeiswyr oedd yn ymwybodol ohono.**

3.29 Roedd mwyafrif llethol yr ymgeiswyr o'r farn ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth am y gronfa unwaith y byddent yn ymwybodol ohoni. Roedd ymgeiswyr wedi ei chael yn hawdd dod o hyd i wybodaeth am y gronfa ar-lein ac wedi gallu ffonio Anabledd Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth dros y ffôn.

> ‘Roedd yn hawdd. Roedd yn beth hawdd. Chwarae teg, Anabledd Cymru oedd yn ei redeg … wastad ar gael ar y ffôn os oedd gen i unrhyw broblemau neu gwestiynau. Roedd yn hawdd iawn.’ – Ymgeisydd

**Roedd y cymorth a'r cyngor a oedd ar gael yn gwneud y broses ymgeisio yn syml ac yn fwy hygyrch.**

3.30 Gwnaeth ymgeiswyr geisiadau yn bennaf am gyllid i dalu costau cynorthwywyr personol a thechnoleg ffisegol i'w galluogi i oresgyn rhwystrau

sy'n ymwneud â chanfasio, ac roeddent yn hynod gadarnhaol am y broses ymgeisio.

3.31 Roedd yr ymgeiswyr yn gwerthfawrogi'n fawr y gallu i siarad â staff Anabledd Cymru i ofyn am gymorth i gwblhau'r ffurflen gais a chyngor/arweiniad ar yr hyn i wneud cais amdano. I nifer o ymgeiswyr, roedd y cymorth hwn, yn enwedig yr opsiwn i siarad ag aelod o staff Anabledd Cymru mewn cynhadledd fideo, yn golygu bod y broses ymgeisio wedi'i gwneud yn llawer symlach a mwy hygyrch nag y byddai wedi bod fel arall.

> 'Cefais lawer o help i roi'r cais at ei gilydd, a oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr … Doeddwn i erioed wedi gwneud hyn o'r blaen … Ces i lawer o help gan Anabledd Cymru i roi ceisiadau at ei gilydd a'u cyflwyno, a oedd yn wych. Roedden nhw'n ardderchog.' – Ymgeisydd

3.32 Cynghorodd Anabledd Cymru ymgeiswyr hefyd ar yr hyn y byddent yn debygol o fod ei angen ar gyfer eu hymgyrch etholiadol, neu'r hyn na fyddent yn debygol ei angen, yn ogystal â'r hyn y gallent yn rhesymol ei ddisgwyl. Teimlai ymgeiswyr fod hyn yn ei gwneud yn haws gwybod pa gymorth i wneud cais amdano.

> '… [Cefais] gynhadledd fideo gyda nhw lle dywedon nhw … y gallent ymchwilio i'r siawns o gael cynorthwyydd personol. Felly, yna cawsom gynhadledd fideo arall, lle cefais fy nghynghori wedyn i anfon cais gwahanol i mewn gyda chymorth y cynorthwyydd personol.' – Ymgeisydd

### Ni chafodd yr hyn sy'n cyfrif fel addasiadau rhesymol ei egluro i bob ymgeisydd.

3.33 Er bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi derbyn cymorth gyda'u cais a oedd yn cynnwys argymhellion ar yr hyn y gallent ddisgwyl ei dderbyn, neu'r hyn na allent ddisgwyl ei dderbyn, nid oedd hyn bob amser yn wir. Teimlai rhai ymgeiswyr nad oedd yn glir beth y gallent wneud cais amdano oherwydd nad oeddent yn gwybod beth fyddai'n cael ei ystyried yn addasiad rhesymol. Arweiniodd hyn at beth dryswch am yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn gost ymgyrchu a beth fyddai'n addasiad rhesymol ar gyfer eu hanabledd.

> ‘Nid oedd yn gwbl glir o'r wybodaeth mewn gwirionedd beth oedd yn cyfrif fel costau ymgyrchu arferol a beth oedd yn cyfrif fel addasiadau rhesymol. Ar y dechrau, meddyliais: “Efallai y gallaf ddefnyddio rhywfaint o’r arian hwn i anfon deunydd allan oherwydd ei fod yn anodd i mi gyrraedd yr ardaloedd hyn yn gorfforol” … Ond yna dywedodd Anabledd Cymru: “Na, mae hynny'n cyfrif fel cost ymgyrchu felly ni fyddwch yn gallu gwneud hynny.’’’ – Ymgeisydd

3.34 Mae'r canfyddiad hwn yn cefnogi'r farn a roddodd aelodau'r panel, sef, os bydd y cyllid ar gael eto, rhaid i'r darparwr sicrhau ei fod yn darparu dogfennau ac arweiniad clir ar ba gostau a ganiateir a pha gostau na chaniateir.

### Cymorth gan y peilot ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus ac effeithiolrwydd cyffredinol

**Derbyniodd ymgeiswyr y rhan fwyaf o'r cymorth y gwnaethant gais amdano, ond roedd amserlenni yn aml yn broblem.**

3.35 Dywedodd pob un o’r ymgeiswyr a gymerodd ran mewn cyfweliadau eu bod wedi derbyn naill ai’r cyfan neu’r rhan fwyaf o’r darpariaethau galluogi y gwnaethant gais amdano.

3.36 Pan ofynnwyd iddynt pam na chaniatawyd rhai elfennau o'r hyn yr oeddent wedi gwneud cais amdano, dywedodd rhai ymgeiswyr mai'r rheswm am hynny oedd bod eu cais yn rhy agos at gyfnod yr etholiad oherwydd iddynt ddysgu am y peilot yn hwyrach nag y byddent wedi dymuno. O ganlyniad, cawsant eu cynorthwywyr technoleg neu bersonol ar ôl i'r cyfnod canfasio ddechrau, gan arwain rhai o'r rhain i deimlo bod yr effaith gyffredinol y gallai'r cymorth ei chael ar eu hymgyrch wedi lleihau.

> ‘Cefais wybod [am y gronfa] yn rhy hwyr … Cynigiwyd … cynorthwyydd personol i mi am dri diwrnod olaf yr ymgyrch a fyddai gyda mi am ddwy awr bob dydd.’

3.37 Mewn rhai achosion, dywedodd ymgeiswyr na chawsant rai agweddau ar y gronfa yr oeddent wedi gofyn amdanynt gan nad oedd yn cael ei ystyried yn

addasiad addas ar gyfer eu hanabledd. Yn yr achosion hyn, dywedodd ymgeiswyr y cynigiwyd addasiadau arall iddynt yn lle hynny, a oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

3.38 Ym mhob un o'r achosion lle na chafodd ymgeiswyr yr holl gymorth y gwnaethant gais amdano, esboniwyd yn glir iddynt pam fod hyn yn wir fel eu bod yn deall.

**Yn aml, y cymorth y gwnaeth ymgeiswyr ei gael oedd y gwahaniaeth rhwng p'un a oeddent yn teimlo y gallent redeg am swydd ai peidio.**

3.39 Fel y crybwyllwyd, teimlai ymgeiswyr eu bod wedi gallu cael mynediad at y cyfan neu'r mwyafrif o'r cymorth y gwnaethant gais amdano. Dywedodd yr ymgeiswyr felly eu bod yn teimlo eu bod wedi cael y rhan fwyaf o'r cymorth y teimlent yr oedd ei angen arnynt i redeg am swydd.

3.40 O ganlyniad, roedd pob un o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd yn ddiolchgar am y cymorth a gawsant, gyda rhai yn dweud na fyddent wedi gallu rhedeg am swydd hebddo.

> ‘Y peth mwyaf buddiol oedd fy nghynorthwyydd personol … [ac] roedd rhai o'r teclynnau bach oedd gen i yn help mawr … roedd y cymorth corfforol a gefais yn ddefnyddiol. Ni allwn fod wedi ei wneud heb hynny.’ – Ymgeisydd

> ‘Wel, roedd yn hanfodol. Roedd yn golygu fy mod yn gallu cyrraedd y ward yn gorfforol, ac yna gallwn gynnal yr ymgyrch oddi yno.’ – Ymgeisydd

3.41 Yn yr un modd, roedd nifer o randdeiliaid yn teimlo'n gadarnhaol am y cymorth a gafodd ymgeiswyr llwyddiannus, gan ei gydnabod fel y gwahaniaeth rhwng p'un a fyddai ymgeiswyr yn gallu rhedeg am swydd ai peidio.

> ‘O'r adborth a gawsom ac o'r gwerthusiad a wnaethom ei gynnal yn fewnol, roedd yn ymddangos bod ymgeiswyr yn falch o'r cymorth a gawsant a’r broses ar gyfer cael y cymorth hwnnw. Roeddent yn teimlo ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i'w hymgyrch … i ymgyrchu ar sail debyg i

ymgeiswyr eraill. Rwy'n meddwl ei fod yn bendant yn ddefnyddiol i bobl.' – Aelod o'r panel

'Byddwn i'n dweud gyda'r rhan fwyaf ohonynt a ymgeisiodd ei fod yn newid bywydau. Rwy'n meddwl na fyddai'r mwyafrif ohonynt wedi gallu rhedeg heb y cymorth hwnnw.' – Rhanddeiliad

**Cytunodd rhanddeiliaid ac ymgeiswyr mai amserlenni oedd y rhwystr mwyaf arwyddocaol i ymgeiswyr gael mynediad at y cymorth yr oedd ei angen arnynt.**

3.42 Y prif resymau a nodwyd gan randdeiliaid ac ymgeiswyr am yr anawsterau a gawsant o ran amserlenni oedd:

- Roedd yn rhaid i ymgeiswyr dreulio rhan o'u hamser ymgyrchu yn ymgyfarwyddo â chyfarpar newydd a roddwyd iddynt
- Ni allai ymgeiswyr sy'n cynrychioli pleidiau gwleidyddol wneud cais am gyllid tan ar ôl i'w hymgeisyddiaeth gael ei chadarnhau; ac
- Derbyniodd rhai ymgeiswyr eu hoffer / eu cymorth ar ôl i'r cyfnod canfasio ddechrau

3.43 O ganlyniad, awgrymodd rhai y dylai darpar ymgeiswyr allu gwneud cais am ddarpariaethau mewn egwyddor yn gynharach.

3.44 Teimlwyd y byddai rhoi mwy o amser i'r broses yn rhoi mwy o amser i ymgeiswyr ymgyfarwyddo â'r cyfarpar y byddent yn ei dderbyn, ac o bosibl eu gwneud yn fwy tebygol o ennill ymgeisyddiaeth gan eu pleidiau.

'Dylai'r cynllun ganiatáu i chi wneud cais cyn eich bod yn ymgeisydd fel eich bod yn barod i fynd pan fydd eich plaid yn cadarnhau eich bod yn ymgeisydd.' – Ymgeisydd

'Doeddwn i ddim yn gwybod y byddwn i'n cael fy newis, felly ni allwn wneud cais. Pe bawn i'n gallu gwneud cais cyn gwybod fy mod wedi cael fy newis, yna byddai hynny wedi helpu i gyflymu'r peth. Felly, mae angen i'r cynllun gydnabod nad yw pleidiau gwleidyddol o reidrwydd yn gweithredu mor gyflym ag y dylent.' – Ymgeisydd

3.45 Fodd bynnag, cwestiynwyd hefyd p'un a fyddai hyn yn rhoi ymgeiswyr annibynnol o dan anfantais pe na baent yr un mor ymwybodol o'u hopsiynau mor gynnar â phosibl.

> ‘Os nad ydynt yn gwybod ei fod yno, nid wyf yn gwybod sut y byddech chi'n eu helpu i wybod ei fod yno. Strwythurau plaid yn ôl pob tebyg: mae'n debyg mai strwythurau pleidiau gwleidyddol yw'r ffordd orau. [Fodd bynnag], gallai hynny wedyn roi ymgeiswyr annibynnol dan anfantais.’ – Ymgeisydd

3.46 Teimlai rhanddeiliaid hefyd y byddai angen rhoi mwy o amser i ddysgu am yr offer a ddarperir ac i adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau a all ddarparu cynorthwywyr personol.

> ‘Mae angen mwy o amser yn y cyfnod cyn hynny, mae angen gwneud mwy o ymchwil i ble y gallwn ddod o hyd i gynorthwywyr personol, lle gallwn ddod o hyd i'r cyfarpar y mae pobl yn gofyn amdano fel nad oes unrhyw oedi cyn cael mynediad at y rheini.’ – Aelod o'r panel

3.47 Yn y cyfamser, roedd yna ymgeiswyr eraill a dderbyniodd eu cyfarpar a/neu gynorthwywyr personol ar ôl i'r cyfnod canfasio ddechrau. Arweiniodd hyn at rai yn cwestiynu p'un a allai fod wedi cael effaith negyddol ar eu canlyniad etholiad.

> ‘Rydw i eisiau pwysleisio amseriad pethau. Ni chefais y cymorth mewn pryd. Roedd yr ymgyrch wedi dechrau pan gyrhaeddodd rhai o’r pethau ffisegol y gwnes i gais amdanynt. Gwnes i gais am lechen i'm helpu i wneud nodiadau ar garreg y drws ac ni chyrhaeddodd honno tan ail wythnos yr ymgyrch.’ – Ymgeisydd

### Roedd ymgeiswyr a rhanddeiliaid yn wyliadwrus o'r posibilrwydd o system ddyfarnu sy’n gweithredu ar sail y cyntaf i'r felin.

3.48 Tynnodd rhanddeiliaid ac ymgeiswyr sylw at y ffaith y gallai natur llawer o anableddau achosi i ymgeisydd gymryd mwy o amser i gwblhau ei geisiadau nag ymgeiswyr eraill. O ganlyniad, teimlwyd yn gyffredinol na fyddai cael

system ddyfarnu ar sail y cyntaf i'r felin yn ddelfrydol gan y byddai'n rhoi unigolion dan anfantais ar sail eu hanableddau.

> 'Mae'n debyg y byddai'r cyntaf i'r felin yn golygu na fyddwn wedi ei gael, oherwydd roeddwn mor hwyr yn gwneud cais.' – Ymgeisydd

**Cytunodd rhanddeiliaid ac ymgeiswyr fod y gronfa yn gwastatáu'r maes i ryw raddau.**

3.49 Ni ddywedodd rhanddeiliaid ac ymgeiswyr eu bod yn teimlo bod y peilot wedi gwastatáu'r maes yn llwyr gan fod llawer yn teimlo na fyddai hyn yn bosibl / rhesymol bosibl. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y bobl a gyfwelwyd yn tueddu i gytuno bod y peilot wedi gwastatáu'r maes i raddau rhesymol.

> 'Rwy'n meddwl ei fod wedi gwneud i bobl anabl sylweddoli bod siawns, a bod y cyfleoedd hynny yno oherwydd bod canran y bobl anabl sy'n sefyll ar gyfer unrhyw fath o etholiad wedi bod yn hynod o isel yn hanesyddol.' – Aelod o'r panel

3.50 Yn ogystal, dywedodd ymgeiswyr a oedd wedi gwneud y ceisiadau'n hwyr y gallent fod wedi teimlo bod y peilot wedi gwastatáu'r maes i raddau helaethach pe baent wedi cael gwybod amdano'n gynharach ac felly bod ganddynt fwy o amser i wneud cais.

> 'Gallai fod wedi golygu y gallwn i fod wedi dosbarthu fy nhaflenni a deunydd ymgyrchu yn gynt i bobl fel y gallwn fod wedi canolbwyntio ar elfennau eraill, sef siarad â phobl. Byddai wedi bod yn llai prysur, mae'n debyg, gyda cheisio gwneud popeth yn y cyfnod byr oedd gennym ar ôl.' – Ymgeisydd

### Ymestyn y gronfa i ymgeiswyr â nodweddion gwarchodedig eraill a galluogi'r rhai sy'n cael eu hethol

**Teimlai rhanddeiliaid ac ymgeiswyr fod y rhwystrau a wynebir gan bobl ag anableddau yn wahanol i'r rhwystrau y mae pobl â nodweddion eraill yn eu hwynebu.**

3.51 Roedd rhai ymgeiswyr a llawer o randdeiliaid yn wyliadwrus o'r syniad o gyflwyno nodweddion gwarchodedig eraill i'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig pe bai am aros mewn fformat tebyg i'r cynllun peilot. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth eang i sicrhau tegwch mewn gwleidyddiaeth gan ddefnyddio mentrau eraill.

3.52 Er bod cyfranogwyr yn cydnabod ei fod yn debyg y gallai pobl â nodweddion gwarchodedig eraill wynebu rhwystrau rhag cael eu hethol, teimlwyd yn eang y byddai'r atebion i'w rhwystrau yn wahanol i'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl.

3.53 Yn ddiddorol, rhoddwyd y safbwyntiau hyn hefyd gan gyfranogwyr a oedd yn uniaethu â nodweddion gwarchodedig eraill ochr yn ochr â'u hanableddau.

> 'Nid yw fy [nodwedd warchodedig arall] yn fy atal rhag gwneud dim byd o ran bywyd gwleidyddol … Credaf fod anabledd yn ôl ei ddiffiniad … yn diffinio rhwystr corfforol go iawn, yn ogystal â rhwystr seicolegol i wneud y swydd. Nid wyf yn teimlo bod pobl â nodweddion eraill yn dioddef yr un problemau wrth gymryd rhan.' – Ymgeisydd

3.54 Yn gyffredinol, mynegodd cyfranogwyr eu dymuniad bod y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn parhau i fod yn fenter sy'n canolbwyntio ar anabledd, tra gellid dilyn llwybrau eraill i alluogi ymgeiswyr â nodweddion gwarchodedig eraill i oresgyn eu rhwystrau priodol yn well.

**Teimlai rhanddeiliaid y gellid rhoi mwy o ystyriaeth i amgylchiadau ariannol ymgeiswyr, eu beichiogrwydd a'u cyfrifoldebau gofalu.**

3.55 Er bod rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn ofalus ynghylch cyflwyno nodweddion gwarchodedig eraill i'r gronfa yn benodol, roeddent yn dal i ystyried sut y gellid galluogi ymgeiswyr â rhwystrau a heriau eraill yn well.

3.56 Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod amgylchiadau ariannol ymgeiswyr yn arwyddocaol, gydag aelodau'r panel yn nodi, er bod anableddau ymgeiswyr yn aml yn ei gwneud yn anodd iddynt ddod o hyd i waith, ni chafodd effaith hyn ar eu hincwm ei hystyried yn y peilot. Felly, teimlwyd y dylid ystyried yr effaith negyddol y mae diffyg hygyrchedd mewn mannau cyflogaeth yn ei gael ar bobl anabl ac felly amgylchiadau ariannol yn y dyfodol.

> '… Byddai rhai pobl yn cyflwyno eu ceisiadau, oherwydd eu bod yn anabl, nad oeddent wedi gallu cael swydd, a'u bod wedi bod yn byw ar Gredyd Cynhwysol fel nad oedd ganddynt y dillad i allu mynd allan a chanfasio. Gwnaethom ddyfarnu nad oedd honno'n eitem sy'n ymwneud ag anabledd, ond ar yr un pryd roedden ni i gyd yn teimlo'n hollol druenus oherwydd … bod hynny'n rhwystr.' – Aelod o'r panel

> 'Rwy'n meddwl y byddai cael pobl sy'n gallu cynghori [ymgeiswyr] ar faterion tlodi hefyd [yn ddefnyddiol] oherwydd y byddai'r holl leiafrifoedd yn dueddol o brofi rhagfarn yn anghymesur yn y gweithle, anawsterau gyda chyflogaeth a phethau fel hynny.' – Aelod o'r panel

3.57 Roedd rhanddeiliaid ac ymgeiswyr hefyd oedd yn teimlo y gallai cymorth ariannol yn seiliedig ar statws cyflogaeth ac amgylchiadau ariannol ymgeiswyr gael ei ymestyn i ymgeiswyr heb anableddau.

> 'Ei gael yn fwy cydgysylltiedig, modelau mwy cymdeithasol i sicrhau nad yw ond fel "gallwn ni brynu rhywbeth i chi sy'n ymwneud â'ch anabledd yn unig". Byddai ei ehangu ymhellach wedi bod yn dda iawn.' – Aelod o'r panel

> 'Pe bai gan bawb fynediad at yr arian yr oeddent i fod i gael mynediad ato ac nad oedd yn rhaid iddynt wario eu harian eu hunain, byddech am i bobl ddi-waith sefyll am etholiad, pobl ar fudd-daliadau i sefyll am etholiad, a dyna yw amrywiaeth. Mae'n golygu felly mai dim ond ar gyfer y rhai sydd wir angen cymorth y byddai angen arian fel eich un chi.' – Ymgeisydd

3.58 Roedd beichiogrwydd a chyfrifoldebau gofalu yn nodweddion eraill y teimlai rhanddeiliaid y gellid eu hystyried mewn fersiynau o'r gronfa yn y dyfodol,

gan fod y rhain yn rhwystrau y gellid eu goresgyn o bosibl gyda chymorth ariannol.

> ‘Rwy'n meddwl y byddai'n gam nesaf naturiol a syml i ehangu hyn i gynnwys cyfrifoldebau gofalu … am ofal plant ac ar gyfer pobl sy'n cynorthwyo perthnasau oedrannus. Pethau fel hynny.’ – Aelod o'r panel

**Gallai gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector helpu i gefnogi materion sy'n ymwneud â chroestoriadedd.**

3.59 Roedd y cyfranogwyr yn ei chael yn anodd rhoi awgrymiadau ar sut y gallai'r gronfa alluogi ymgeiswyr â mwy nag un nodwedd yn well. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai darpariaeth yn y dyfodol i'r rhai sy'n sefyll am etholiad gysylltu sawl sefydliad i alluogi pobl anabl sydd hefyd â nodweddion gwarchodedig eraill yn well. Crybwyllwyd y partneriaeth Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal[7] fel enghraifft o arferion da.

> ‘Rwy'n meddwl y byddai cyfuno â sefydliadau eraill [yn fuddiol]. Rwy'n gwybod gyda Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal bod gennych chi'r menywod, LHDTQRh+, BAME ac anabledd. Rwy'n meddwl [y dylai'r gronfa fod am] gael cefnogaeth pobl o'r holl sefydliadau hynny i allu cyrraedd eu sylfaen.’ – Aelod o'r panel

**Gellid ymestyn darpariaeth i gefnogi ymgeiswyr etholedig yn well.**

3.60 Roedd y mwyafrif llethol o’r rhanddeiliaid yn cytuno, er bod y peilot wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan o ran darparu’r addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar ymgeiswyr anabl i allu sefyll am swydd, bod angen gwneud mwy i alluogi ymgeiswyr yn eu rôl ar ôl cael eu hethol.

3.61 Felly, dywedodd tua hanner yr holl randdeiliaid a gyfwelwyd y byddai angen ymestyn rhyw fath o gynllun i ddarparu'r un addasiadau rhesymol i ymgeiswyr etholedig anabl ag a ddarperir i bobl anabl mewn cyflogaeth.

> ‘Mae’r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn helpu gydag addasiadau rhesymol sy'n gysylltiedig â gwaith … ond os cewch eich penodi neu eich

[7] https://epev.cymru/cy/

ethol, nid wyf yn gwybod yn onest. Rwy'n amau p'un a fyddent yn ymdrin â hynny oherwydd nad wyf yn meddwl eich bod yn gyflogedig yn dechnegol.' – Aelod o'r panel

**Byddai angen i adeiladau'r llywodraeth gynnwys mwy o hygyrchedd ynddynt ar gyfer swyddogion etholedig ar bob lefel.**

3.62 Fel pwynt ehangach, mynegodd sawl rhanddeiliad eu hanfodlonrwydd â hygyrchedd adeiladau llywodraeth leol a chenedlaethol i swyddogion etholedig ar bob lefel. Dywedwyd bod hygyrchedd yn amrywio mewn adeiladau llywodraeth leol ledled Cymru, tra dywedwyd bod gan y Senedd hygyrchedd gwael i seddi gweinidogol, ac ohonynt, sy'n rhoi llawer iawn o sylw i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Pwysleisiwyd bod hyn yn ddigalon iawn i bobl anabl yn ystyried ymgeisyddiaeth ac y byddai angen mynd i'r afael â'r materion hyn i helpu i alluogi pobl anabl sy'n swyddogion etholedig yn well.

'Os ydych chi eisiau mynd i eistedd yn seddi gweinidogol a'ch bod chi'n defnyddio cadair olwyn, mae ganddyn nhw'r system ryfedd hon lle mae'r llawr yn mynd i fyny ac … yn dechrau gwneud synau bipian … A goleuadau'n fflachio! Dw i erioed wedi gweld unrhyw beth tebyg … Mae'n hollol chwerthinllyd … Dyna wahaniaethu wedi'i ymgorffori o fewn adeiladwaith yr adeilad.' – Rhanddeiliad

3.63 Awgrymwyd hefyd mai ychydig o fesurau hygyrchedd sydd gan leoliadau Cynghorau cymuned yn gyffredinol a bod unrhyw rai sy'n bodoli yn arbennig o wael. Felly teimlwyd y gallai llawer o bobl anabl sydd â'u profiad cyntaf o swydd etholedig ar y lefel hon gael eu hannog i beidio â mynd ar drywydd mwy o gyfranogiad mewn gwleidyddiaeth yn y dyfodol.

'Rwy'n meddwl mai'r sefyllfa lle mae gwir angen [am welliant] yw gyda chynghorau cymuned, oherwydd nad oes ganddynt o reidrwydd yr un lefel o gymorth ac adnoddau ag sydd gan brif gynghorau … Rwy'n meddwl bod hwnnw'n faes lle mae angen mwy o hyfforddiant, mwy o fynediad at gymorth … Rwy'n meddwl, os yw pobl yn cael profiad gwael yno, yna mae hynny'n debygol o'u hatal rhag mynd ymhellach.' – Rhanddeiliad

**Pwysleisiodd ymgeiswyr y dylai iteriadau'r peilot yn y dyfodol barhau mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector, tra oedd rhanddeiliaid yn eirioli dros annog pleidiau gwleidyddol i chwarae rhan fwy.**

3.64 Pan ofynnwyd iddynt beth y dylid ei wneud i helpu i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y ddarpariaeth alluogi sydd ei hangen arnynt mewn unrhyw fersiynau o'r gronfa yn y dyfodol, pwysleisiodd ymgeiswyr bwysigrwydd sefydliadau trydydd sector. Teimlwyd bod rôl Anabledd Cymru yn y gwaith o weithredu'r peilot wedi bod yn allweddol, gydag ymgeiswyr yn eiriol dros fersiynau o'r peilot yn y dyfodol sy'n parhau i adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau o'r fath ledled Cymru.

> 'Cael pobl i wybod amdano wrth gwrs yw'r cam cyntaf … Mae'n ymddangos bod gan bob ardal awdurdod lleol grŵp mynediad. Dylai Anabledd Cymru wybod am hynny. Anabledd Cymru yn amlwg yw'r ffordd i fynd …' – Ymgeisydd

3.65 Pwysleisiodd rhanddeiliaid, ar y llaw arall, bwysigrwydd cynnwys pleidiau gwleidyddol mewn cynigion cymorth yn y dyfodol fel nad yw aelodau sy'n ymgeisio am ymgeisyddiaeth dan anfantais.

> 'Dylai pleidiau gwleidyddol allu eu cefnogi i ryw raddau hefyd. Nid yw'n wir gynhwysiant os ydym yn disgwyl i'r llywodraeth wneud hynny. Mae angen i ni i gyd gael y sgwrs.' – Aelod o'r panel

**Roedd rhanddeiliaid yn eiriol dros fersiwn barhaol o'r peilot a fyddai'n rhoi cyngor trwy gydol y flwyddyn i ddarpar ymgeiswyr ar yr hyn y gallent wneud cais amdano.**

3.66 Cytunodd rhanddeiliaid, er bod y peilot wedi rhoi mesurau ar waith i liniaru'r rhwystrau ffisegol a wynebir gan bobl anabl, y gellid rhoi mwy o fesurau ar waith i addysgu ymgeiswyr am y tro cyntaf ar y broses o sefyll am swydd.

> 'Pe byddem yn rhoi mwy o'r gwasanaethau cofleidiol ar waith, felly nid arian yn unig ond hyfforddiant a chyngor ar edrych ar wahanol lwybrau, yna byddech yn gwastatáu'r sefyllfa yn wirioneddol.' – Aelod o'r panel

3.67 Teimlai nifer o randdeiliaid y dylid llunio fersiwn o'r gronfa lle gallai cynghorwyr fod ar gael yn barhaol i gynghori ymgeiswyr nid yn unig ar y broses etholiadol ond hefyd ar ba gymorth a allai fod ar gael iddynt a'r hyn y gallent wneud cais amdano.

3.68 Roedd rhanddeiliaid o'r farn, trwy wneud hyn, y gallai darpar ymgeiswyr fod â mwy o hyder yn yr hyn y gallent ei ddisgwyl o redeg am swydd ac felly fod yn fwy grymus i elwa ar y cymorth sydd ar gael.

> ‘[Dylai fod] swyddog â thâl llawn [lle] dyna'r cyfan y mae’n ei wneud trwy gydol y flwyddyn, fel y gall gael sgyrsiau â phleidiau a'u cael ar y trywydd iawn i feddwl am bethau. Hyd yn oed y Comisiwn Etholiadol yn ystyried addasiadau y gallai fod eu hangen ar ymgeisydd. A chynghorydd technoleg gynorthwyol wrth law i gynorthwyo'r panel. Ac asiantaeth wrth law i helpu gyda gweithwyr cymdeithasol.’ – Aelod o'r panel

### Roedd ymgeiswyr a rhanddeiliaid yn eiriol dros ehangu'r amserlen ar gyfer cymorth yn y dyfodol.

3.69 Dywedodd ymgeiswyr a rhanddeiliaid eto y dylid ailystyried amserlen y peilot mewn fersiynau o'r gronfa yn y dyfodol er mwyn gwella'r tebygolrwydd y bydd ymgeiswyr yn cael y ddarpariaeth alluogi sydd ei hangen.

> ‘Rwy’n meddwl mai dim ond ar gyfer rhai’r dyfodol yw edrych ar yr amserlenni o ran pryd y mae ar gael a gwneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl fel y gallai pobl nad ydynt efallai wedi meddwl y gallent sefyll yn y dyfodol pe baent yn gwybod bod y cymorth yno.’ – Ymgeisydd

3.70 Er bod ymgeiswyr yn dadlau dros gyfnod ymgeisio hirach i leihau dyfarniadau hwyr sy'n tresmasu ar gyfnodau canfasio, roedd aelodau'r panel yn dadlau o blaid hynny er mwyn caniatáu mwy o amser i gael caffael ar adnoddau i gynnal y gronfa a darparu'r cymorth sydd ei angen ar ymgeiswyr.

> ‘Mae llawer yn digwydd y tu ôl i'r llenni cyn i geisiadau gyrraedd y panel ac mae angen cymorth ac adnoddau digonol ar gyfer hynny gyda phobl ac amser. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig edrych ar drefnu cyfarfodydd

> ymlaen llaw ar gyfer y cyfnodau hynny pan fyddwch yn gwybod y bydd yn brysur.' – Aelod o'r panel

### Dylai gwybodaeth a chanllawiau ar fersiynau o'r gronfa yn y dyfodol fod yn fwy amlwg.

3.71 Roedd ymgeiswyr a rhanddeiliaid hefyd yn argymell y dylid cynyddu gwaith hysbysebu a chyfathrebu ar gyfer y gronfa yn y dyfodol. Roedd hyn oherwydd y credid y byddai cynyddu amlygrwydd y gronfa yn caniatáu i fwy o ddarpar ymgeiswyr ystyried rhedeg am swydd o ddifrif.

> 'Rwy'n meddwl bod hysbysebu yn amlwg yn hollbwysig. Mae'n debyg y byddwn i o blaid ymgyrch genedlaethol … Dwi'n meddwl y byddwn i'n gwneud pethau'n fawr a dweud y gwir, fel arall rydych chi'n mynd i gael yr hyn y maent yn ei alw'n effaith loteri cod post.' – Aelod o'r panel

3.72 Awgrymodd ymgeiswyr hefyd y dylai'r Comisiwn Etholiadol annog cynghorau lleol i gyfathrebu'r gronfa'n ehangach yn y dyfodol, gan fod rhai yn teimlo nad oedd eu cynghorau unigol neu bleidiau gwleidyddol wedi gwneud y peilot mor amlwg ag y dylent fod.

> 'Bydd llawer ohono yn dod i lawr i swyddogion etholiadol awdurdodau lleol, ac nid wyf yn meddwl bod ein swyddog etholiadol wedi rhoi gwybodaeth mor eang ag y gellid bod wedi ei wneud. Efallai y dylid annog y Comisiwn Etholiadol i fynnu bod terfynau amser ar gyfer lledaenu'r cynllun hwn yn cael eu darlledu'n eang.' – Ymgeisydd

3.73 Dywedwyd mai cyfryngau traddodiadol a chyfryngau cymdeithasol oedd y ffyrdd mwyaf effeithiol o gyfathrebu iteriadau o'r gronfa yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd nifer o ymgeiswyr yn dadlau y dylai cynghorau lleol (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig) ddefnyddio hysbysfyrddau yn y dyfodol i wneud y gronfa yn fwy amlwg.

> 'Yn y rhan hon o Gymru, mae gennym hysbysfyrddau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan gynghorau cymuned. Efallai llythyr atynt gan y swyddog neu oddi wrthych chi'ch hun yn dweud "mae etholiadau lleol yn dod

ymhen chwe mis, hoffem eich gwneud yn ymwybodol ohono ni”.’ – Ymgeisydd.

## 4. Casgliadau

4.1 Yn weithredol, roedd peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn llwyddiannus. Llwyddodd Anabledd Cymru i roi'r prosiect ar waith mewn cyfnod byrrach na'r disgwyl, yn barod ar gyfer yr etholiadau i'r Senedd yn 2021.

4.2 Daeth y panel asesu ag unigolion o gefndiroedd gwleidyddol amrywiol a phrofiadau amrywiol o anabledd at ei gilydd, gan olygu bod pob cais unigol yn cael ystyriaeth lawn ac amrywiol, er bod y broses benderfynu ar adegau yn cael ei hystyried yn frysiog, ac iddi arwain at alw cyfarfodydd panel ar sail ad hoc, gyda lefelau presenoldeb amrywiol.

4.3 Er bod niferoedd y ceisiadau'n gymharol isel, rhoddodd y peilot ddarpariaeth galluogi i'r rhai a ymgeisiodd, gan olygu y byddent wedi gallu canfasio'n fwy effeithiol nag y byddent fel arall, a oedd yn arbennig o werthfawr i'r rheini mewn etholaethau mwy gwledig.

4.4 Dywedwyd bod y broses ymgeisio yn un syml a chanmolwyd y ddarpariaeth gan Anabledd Cymru pan oedd ei angen yn fawr; roedd cymorth weithiau'n cael ei roi i'r rhai sy'n ei chael yn anodd enwi ffurflenni, a thrwy esbonio i ymgeiswyr pa ddarpariaethau fyddai'n eu galluogi fwyaf yn unigol.

4.5 Yn ystod y cam cyngor ac arweiniad, cymeradwywyd ymdrechion i egluro'r hyn y gellid ei gyfrif yn addasiad rhesymol yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd ar yr adeg hon.

4.6 Er bod ein canfyddiadau'n seiliedig ar nifer fach o ymgeiswyr, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod y peilot wedi gweithio'n dda i'r rhai â rhwystrau ffisegol. Mae llai o dystiolaeth ar lwyddiant y peilot ar gyfer y rhai sydd â rhwystrau eraill, neu rai amlochrog, gan gynnwys materion gwybyddol. Mae angen ystyried yn ofalus sut y gall darpariaeth yn y dyfodol gwmpasu'r sbectrwm anabledd mor effeithiol â phosibl.

4.7 Yr her fwyaf i lwyddiant y peilot oedd yr amserlen fer ar gyfer cymhwyso yn gysylltiedig â chyfraith etholiadol. Er mwyn i unrhyw fersiwn o'r gronfa yn y

dyfodol gael effaith wirioneddol ar amrywiaeth yr aelodau etholedig yng Nghymru, byddai angen ailedrych ar yr amserlenni hyn a'u hymestyn.

4.8 Teimlai rhanddeiliaid ac ymgeiswyr fel ei gilydd y dylid ymestyn y gronfa, neu fersiwn ohoni, i fodoli’n barhaol, gan gynghori darpar ymgeiswyr ar yr hyn y gallent wneud cais amdano ac annog pleidiau gwleidyddol i ystyried o ddifrif aelodau anabl ar gyfer ymgeisyddiaeth. Barn gyffredin oedd y byddai rhaglen barhaus o gymorth sy'n cynnig cronfa fel rhan ohoni o fudd i bobl anabl ac yn gadarnhaol i ddemocratiaeth yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

4.9 Byddai'r rhaglen, neu fframwaith hwn o ddarpariaeth, yn cynnig pecyn mwy cyfannol i bobl anabl ond gallai hefyd fod ar gael i unigolion â nodweddion gwarchodedig eraill, a hyd yn oed y rhai ar incwm isel. Gallai gynnwys cyngor ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r rhai sydd â rhwystrau yn eu bywydau, cyfleoedd rhwydweithio, cymorth ariannol tebyg i'r gronfa beilot, a chymorth parhaus y tu hwnt i gyfnodau etholiadau.

4.10 Byddai strategaeth brand a chyfathrebu wedi’i hadeiladu o amgylch y fframwaith estynedig hwn yn codi proffil y cyfleoedd sydd ar gael i ddod i mewn i ddemocratiaeth yng Nghymru ac, o bosibl, yn rhoi’r hyder i ystod fwy amrywiol o bobl bod y cyfleoedd hyn yn agored i bawb.

4.11 Dywedwyd hefyd fod angen addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl ac aelodau etholedig yn adeiladau’r Llywodraeth ar bob lefel, gan gynnwys ar lefel llywodraeth leol ledled Cymru ac yn y Senedd.

4.12 Nododd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil fod yr offer hygyrchedd yn y Senedd, er enghraifft, yn arbennig o swnllyd ac uchel pan gânt eu defnyddio a'u bod yn tynnu sylw negyddol at y bobl sy'n ei ddefnyddio. Nodwyd hefyd bod adeiladau llywodraeth leol ledled Cymru yn aml yn brin o hygyrchedd i bobl anabl.

4.13 Dangosodd peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig y gall darpariaeth wedi'i dargedu wneud gwahaniaeth amlwg o ran gwastatáu’r maes chwarae i unigolion anabl sy'n dymuno rhedeg ar gyfer swyddi etholedig. Fodd bynnag, er mwyn i’r ddarpariaeth gael ei ehangu a’i fod yn hygyrch i bobl ag ystod o

nodweddion gwarchodedig, teimlwn y dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid fyfyrio ar y canlynol:

**Prif argymhellion**

- Dylai darpariaeth i ymgeiswyr anabl sy'n ceisio etholiad yng Nghymru fod ar gael yn y dyfodol;
- O fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth, dylid ymdrechu i ddarparu offer galluogi neu hyfforddiant rhagarweiniol cyn i'r arian gael ei dynnu i lawr;
- Ni ddylai'r gronfa fod yn annibynnol. Dylai fod yn rhan o becyn ehangach, mwy cyfannol, o gymorth ac arweiniad gyda brand clir yn gysylltiedig ag ef; a
- Dylid ymestyn y pecyn ehangach i unigolion â nodweddion gwarchodedig eraill / heriau eraill.

**Ystyriaethau pellach**

- Sut y gellir dysgu gwersi o ddefnydd ymarferol y gronfa, a bwrw ymlaen â nhw yn y dyfodol? Mae'r rhain yn cynnwys llwyddiant yr elfennau cyngor ac arweiniad, cyfansoddiad y panel, a'r pryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer gwneud cais a dyfarnu cyllid.
- Sut y gellir cefnogi aelodau'r panel i brosesu ceisiadau yn drylwyr yn ystod yr amser rhwng agor ceisiadau a dechrau cyfnod yr etholiad?
- Sut gallwn ni godi ymwybyddiaeth well o'r ddarpariaeth sydd ar gael o fewn y pleidiau gwleidyddol?
- Sut gallwn ni sicrhau bod ymgeiswyr annibynnol yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael ac yn cael mynediad cyfartal iddo?
- Sut gallwn ni sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn addas ar draws y sbectrwm anabledd ac nad yw'n gogwyddo tuag at anabledd corfforol, gan ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd fel fframwaith?

- Sut gallwn ni sicrhau bod aelodau etholedig yn cael eu galluogi unwaith y byddant yn eu swyddi – ar bob lefel o lywodraeth, ac ar draws pob rhanbarth?

## Cyfeirnodau


Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2019) Family Resource Survey 2017/18 Llundain: DWP.

Evans, E. a Reher, S. (2020) 'Disability and political representation: Analysing the obstacles to elected office in the UK'. *International Political Science Review*, Cyf.43, Rhifyn 5.

Mariani, M. a Buckley, F. (2021) 'Money matters: The impact of gender quotas on campaign spending for women candidates'. *International Political Science Review*, Cyf.44, Rhifyn 1.

Murray, R. (2021) 'It's a rich man's world: How class and glass ceilings intersect for UK parliamentary candidates'. *International Political Science Review*, Cyf.44, Rhifyn 1.

Smith, H. a Davies, I. (2022) Chwalu'r rhwystrau i swyddi etholedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig: damcaniaeth newid. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR 66/2022

(University and College Union) (2023) *Everyday Ableism*.

Llywodraeth Cymru (2014) *Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.